Cyllid &
Thollau EF

# Nodiadau: Ymddiriedolaethau ac ati

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 (2025–26)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati eich Ffurflen Dreth

Dylech lenwi'r tudalennau 'Ymddiriedolaethau ac ati' os:

- oeddech yn fuddiolwr a chawsoch neu roedd hawl gennych i incwm o ymddiriedolaeth neu setliad – peidiwch â chynnwys ymddiriedolaethau gwag (gweler isod)
- oeddech yn setlwr ac rydych wedi rhoi arian neu asedion mewn ymddiriedolaeth neu setliad yr ydych wedi elwa ohonynt, neu y gallech fod wedi elwa ohonynt
- cawsoch incwm o ystâd person sydd wedi marw

Dylid cynnwys incwm o ymddiriedolaeth wag ar y dudalen atodol sy'n ymwneud â'r math o incwm. Er enghraifft, dylid dangos incwm o eiddo ar y dudalen ar gyfer Eiddo yn y DU (SA105).

Er mwyn eich helpu i lenwi'r tudalennau hyn, defnyddiwch y nodiadau hyn ac unrhyw ffurflenni R185 y rhoddodd eich ymddiriedolwr neu eich cynrychiolydd personol i chi. Er enghraifft:

- ffurflen R185 (Trust Income), 'Statement of income from trust', ar gyfer blychau 1 i 5
- ffurflen R185 (Settlor), 'Statement of trust income chargeable on settlor', ar gyfer blychau 7 i 15
- ffurflen R185 (Estate Income), 'Statement of income from estates', ar gyfer blychau 16 i 24

Does dim angen i chi lenwi'r holl flychau ar y tudalennau 'Ymddiriedolaeth ac ati', dim ond y rhai hynny sy'n cyd-fynd â'r blychau ar eich ffurflen R185.

Peidiwch â llenwi'r tudalennau 'Ymddiriedolaeth ac ati' gydag unrhyw wybodaeth o'r ffurflen R185 'Cyfandaliadau pensiwn' am daliad o ymddiriedolaeth a ariannwyd gan gyfandaliad budd-dal marwolaeth wedi'i drethu. Yn lle hynny, defnyddiwch flychau 11 a 12 ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth.

Peidiwch ag anfon ffurflenni R185 gyda'ch Ffurflen Dreth. Os byddwn eu hangen, gwnawn ofyn i chi eu hanfon atom.

## Incwm o ymddiriedolaethau a setliadau

Defnyddiwch y ffigurau ym mlychau 1 i 5 ar eich ffurflen R185 (Trust Income) er mwyn llenwi'r adran hon. Os nad yw hon gennych, gofynnwch i'r ymddiriedolwyr am y manylion.

Os ydych yn fuddiolwr ac yn setlwr, peidiwch â llenwi blychau 1 a 2. Rhowch yr incwm hwn ym mlychau 7 i 12.

## Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth sydd wedi'i sefydlu yn y Deyrnas Unedig (DU)

### Blwch 1 Swm net

Cymerwch y ffigur o flwch 1 (taliadau net) ar eich ffurflen R185 (Trust Income) a rhowch hwn ym mlwch 1.

Os ydych yn cael taliadau gan fwy nag un ymddiriedolaeth, adiwch y symiau hyn at ei gilydd.

Os nad yw'r ymddiriedolwr yn preswylio yn y DU, llenwch flwch 41 ar y tudalennau 'Tramor' (gweler hefyd blwch 2 isod).

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth a chymorth wrth gyfrifo'r credyd treth ar daliad ymddiriedolaeth ddewisol, ewch i www.gov.uk/ymddiriedolaethau-trethi

### Blwch 2 Cyfanswm y taliadau o ymddiriedolaethau pan fo gan y setlwr fuddiant

Os yw'r ymddiriedolwr wedi rhoi swm ym mlwch 2 ar eich ffurflen R185 (Trust Income) rhowch y ffigur hwn ym mlwch 2.

Os nad yw'r ymddiriedolwr yn preswylio yn y DU, dylech ond llenwi blwch 2 pan fo buddiant gan y setlwr at ddibenion treth y DU. Os nad yw hyn yn berthnasol, llenwch flwch 41 ar y tudalennau 'Tramor'.

## Hawl i incwm nad yw'n ddewisol gan ymddiriedolaeth

Os nad oes gennych ffurflen R185 (Trust Income), gofynnwch i'r ymddiriedolwyr am fanylion. Rhowch y swm net a gafwyd, hynny yw, ar ôl i dreth y DU gael ei didynnu, ym mlychau 3 i 5. Peidiwch â chynnwys difidendau stoc, incwm tramor neu incwm o ymddiriedolaeth nas trethwyd.

Os na cheir eich incwm o ymddiriedolaeth oddi wrth yr ymddiriedolwyr ond ceir yn uniongyrchol gennych chi neu'n anuniongyrchol, er enghraifft drwy reolwr buddsoddi, nid oes angen i chi gynnwys yr incwm hwn ar y dudalen ymddiriedolaeth. Yn hytrach, dylai'r incwm gael ei nodi'n uniongyrchol ym mlychau priodol eich Ffurflen Dreth.

Os ydych wedi cael incwm o eiddo preswyl, bydd yr ymddiriedolwr yn rhoi manylion y ffigur i chi i'w gynnwys ym mlwch 25 'Swm yr incwm o eiddo preswyl neu gostau ariannol wedi'u cyfyngu' lle bo'n berthnasol. Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen TN 5 i'ch helpu i lenwi blwch 25.

### Blwch 3 Swm net yr incwm nad yw'n deillio o gynilion

Mae hwn yn cynnwys incwm rhent. Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 3 ar eich ffurflen R185 (Trust Income) a rhowch hwn ym mlwch 3. Peidiwch â chynnwys llog neu incwm difidend, mae'r rhain yn mynd ym mlychau 4 a 5.

### Blwch 4 Swm net yr incwm sy'n deillio o gynilion

Mae hwn yn cynnwys llog banc neu gymdeithas adeiladu. Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 4 ar eich ffurflen R185 (Trust Income) a rhowch hwn ym mlwch 4.

### Blwch 5 Swm net yr incwm o ddifidendau

Mae hwn yn cynnwys difidendau o gwmnïau'r DU. Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 5 ar eich ffurflen R185 (Trust Income) a rhowch hwn ym mlwch 5.

## Incwm sy'n drethadwy ar setlwyr

Defnyddiwch y ffigurau ym mlychau 7 i 15 (ond nid 14.1) ar eich ffurflen R185 (Settlor) er mwyn llenwi'r blychau sy'n cyd-fynd yn yr adran hon. Os nad yw hon gennych, gofynnwch i'r ymddiriedolwyr am y manylion.

Os ydych wedi cael incwm o eiddo preswyl, bydd yr ymddiriedolwr yn rhoi manylion y ffigur i chi i'w gynnwys ym mlwch 25 'Swm yr incwm o eiddo preswyl neu gostau ariannol wedi'u cyfyngu' lle bo'n berthnasol. Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen TN 5 i'ch helpu i lenwi blwch 25.

Peidiwch â chynnwys unrhyw incwm tramor yn y blychau hyn, llenwch y tudalennau 'Tramor' yn lle hynny.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am ba incwm caiff ei drin fel incwm y setlwr, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS270'.

### Blwch 15 Treth ychwanegol a dalwyd gan yr ymddiriedolwyr ar enillion polisi yswiriant bywyd yn y DU

Os gwnaeth yr ymddiriedolaeth enillion ar bolisi yswiriant bywyd, mae'n bosibl y bydd angen i chi lenwi blychau eraill ar eich Ffurflen Dreth yn ogystal â blwch 15. Er enghraifft, os:

- oedd y polisi yn un tramor – llenwch flwch 43 ar y tudalennau 'Tramor'
- oedd yr yswiriwr wedi talu'r dreth ar 20% – llenwch flwch 4 ar dudalen Ai 1 y tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol'
- nad oes treth wedi'i thalu ar yr enillion – llenwch flwch 6 ar dudalen Ai 1 y tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol' – os talodd yr ymddiriedolwyr dreth ar yr enillion, rhowch y dreth a dalwyd ym mlwch 15 y tudalennau 'Ymddiriedolaethau ac ati' – gallai hyn fod naill ai yn 20% neu'n 45%

## Incwm o ystadau pobl ymadawedig

Defnyddiwch y ffigurau ym mlychau 16 i 24 ar eich ffurflen R185 (Estate Income) er mwyn llenwi'r adran hon. Os nad yw hon gennych, gofynnwch i gynrychiolwyr personol yr ystâd am fanylion y symiau rydych wedi'u cael neu y mae gennych hawl iddynt fel buddiolwr gweddilliol, a'r dreth a dalwyd.

Os ydych yn fuddiolwr gweddilliol, rydych yn agored i dreth ar eich cyfran chi o unrhyw incwm sy'n codi o'r ystâd. Bydd swm yr incwm a sut caiff ei drethu yn dibynnu ar:

- y math o fuddiant sydd gennych – buddiant absoliwt, buddiant olynol neu fuddiant cyfyngedig neu ddewisol
- os ydyw'n ystâd yn y DU neu dramor

## Incwm o ystadau yn y DU

Os cawsoch incwm o ystâd yn y DU, bydd eisoes wedi'i drethu yn y DU. Byddwch yn cael credyd ar gyfer y dreth a ddidynnwyd o'r taliadau a gewch gan yr ystâd.

Os ydych wedi cael incwm o eiddo preswyl, bydd cynrychiolydd personol yr ystâd yn rhoi manylion y ffigur i chi i'w gynnwys ym mlwch 25 'Swm yr incwm o eiddo preswyl neu gostau ariannol wedi'u cyfyngu' lle bo'n berthnasol. Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen TN 5 i'ch helpu i lenwi blwch 25.

### Blwch 16 Incwm nad yw'n deillio o gynilion

Mae hwn yn cynnwys incwm ar ffurf rhent ac elw o fasnach a drethir ar 20%. Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 16 ar eich ffurflen R185 (Estate Income) a rhowch hwn ym mlwch 16.

### Blwch 17 Incwm sy'n deillio o gynilion

Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 17 ar eich ffurflen R185 (Estate Income) a rhowch hwn ym mlwch 17.

### Blwch 18 Incwm difidend

Dyma unrhyw incwm difidend o gwmnïau yn y DU a chwmnïau tramor. Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 18 ar eich ffurflen R185 (Estate Income) a rhowch hwn ym mlwch 18.

### Incwm difidend a gafwyd gan yr ystâd cyn 6 Ebrill 2016, ond nas talwyd i chi tan ar ôl 5 Ebrill 2025

Os cafwyd unrhyw incwm difidend gan yr ystâd cyn 6 Ebrill 2016, ond nas talwyd i chi tan ar ôl 5 Ebrill 2025, rhowch y ffigur hwn ym mlwch 26, 'Unrhyw wybodaeth arall'. Nid yw'r credyd treth o 10% yn ad-daladwy os nad oes gennych rwymedigaeth treth ar gyfer y flwyddyn.

| Unrhyw wybodaeth arall | |
|---|---|
| 26 | Rhowch unrhyw wybodaeth arall yn y fan hon |
| | *Swm y difidend a gafwyd gan yr ystâd cyn 6 Ebrill 2016 - £500* |

### Blwch 18.1 Incwm difidend sydd wedi'i drethu ar gyfradd o 7.5%

Dyma unrhyw incwm difidend gan gwmnïau yn y DU a chwmnïau tramor a gafwyd cyn 6 Ebrill 2022 ond nas talwyd i chi tan ar ôl 5 Ebrill 2025. Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 18.1 ar eich ffurflen R185 (Estate Income) a rhowch hwn ym mlwch 18.1.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am ddifidendau tramor, ewch i www.gov.uk/government/publications/self-assessment-foreign-sa106.cy

### Blwch 19 Incwm nad yw'n deillio o gynilion a drethwyd ar y gyfradd sylfaenol na ellir ei ad-dalu

Mae hwn yn cynnwys enillion o bolisïau yswiriant bywyd penodol a drethir ar 20%. Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 19 ar eich ffurflen R185 (Estate Income) a rhowch hwn ym mlwch 19.

## Incwm o ystadau tramor

Bydd angen i chi lenwi blychau 22 a 23 os oes gan yr ystâd incwm tramor, a naill ai:

- nid yw'r cynrychiolwyr personol yn preswylio yn y DU, neu
- nid oedd domisil y person ymadawedig yn y DU ar adeg ei farwolaeth (os bu fawr cyn 6 Ebrill 2025) neu os nad oedd yr ymadawedig yn breswylydd hirdymor yn y DU, a hynny yn unol â diffiniad yr IHTA 1984, pan fu farw (os bu fawr ar ôl 6 Ebrill 2025).

Os ydych wedi llenwi'r tudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109) i hawlio rhyddhad ar gyfer incwm tramor o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG), bydd angen i chi roi gwybod am unrhyw incwm cymwys o ystadau tramor yr ydych am hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 22, ac yna llenwi blwch 22.1 gan nodi swm y rhyddhad a hawliwyd. Er mwyn hawlio rhyddhad o dan y gyfundrefn FIG, mae'n rhaid i chi fod yn 'preswylydd newydd cymwys' ac yn gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG gan ddefnyddio blwch 28 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026. Rydych yn breswylydd newydd cymwys os mai dyma un o'ch 4 blynedd cyntaf o breswylio yn y DU ar ôl cyfnod o 10 mlynedd dreth yn olynol o breswylio y tu allan i'r DU, ac nad ydych yn aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am incwm cymwys o ystadau tramor a'r gyfundrefn FIG, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS266'.

### Blwch 22 Incwm o ystadau tramor

Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 22 ar eich ffurflen R185 (Estate Income) a rhowch hwn ym mlwch 22.

### Blwch 22.1 Swm a hawliwyd o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG)

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn FIG ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' (SA109), rhowch gyfanswm yr incwm cymwys o ystadau tramor (o flwch 22) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer ym mlwch 22.1.

### Blwch 23 Rhyddhad am dreth y DU a gyfrifwyd eisoes

Gallwch hawlio rhyddhad ar gyfer unrhyw dreth y DU a dalwyd neu a ddidynnwyd ar incwm o ystâd tramor.

Defnyddiwch y ffigur ym mlwch 23 ar eich ffurflen R185 (Estate Income) a rhowch hwn ym mlwch 23.

## Treth dramor a dalwyd ar incwm yr ystâd

### Blwch 24 Treth dramor pan na hawliwyd Rhyddhad Credyd Treth Tramor ar ei chyfer

Os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i incwm a drethwyd o wlad dramor, sy'n drethadwy yn y DU, gallwch naill ai hawlio Rhyddhad Credyd Treth Tramor neu ddidynnu treth dramor yn erbyn eich incwm.

Os ydych am ddidynnu'r dreth dramor yn erbyn eich incwm, rhowch y swm ym mlwch 24. Fodd bynnag, os ydych yn hawlio rhyddhad o dan y gyfundrefn FIG, ni allwch hawlio ar gyfer y dreth dramor sydd eisoes wedi'i thalu ar yr incwm hwnnw. Gallwch dim ond hawlio ar gyfer y dreth dramor ar y gyfran briodol o unrhyw incwm o ystadau tramor na chwmpasir gan hawliad am ryddhad o dan y gyfundrefn FIG.

Er mwyn hawlio Rhyddhad Credyd Treth Tramor (FTCR), bydd angen i chi lenwi blwch 2 o'r tudalennau 'Tramor', ond bai eich bod yn hawlio'r rhyddhad o dan y gyfundrefn FIG, gan na fyddwch yn gallu hawlio FTCR ar yr incwm hwnnw. Gallwch dim ond hawlio FTCR ar y gyfran briodol o unrhyw incwm tramor na chwmpasir gan hawliad am ryddhad o dan y gyfundrefn FIG.

## Incwm o eiddo preswyl

### Blwch 25 Incwm o eiddo preswyl neu gostau ariannol wedi'u cyfyngu

Nid oes modd hawlio'r costau o gael benthyciad neu drefniant ariannol arall er mwyn prynu eiddo preswyl sy'n cael ei osod, nac unrhyw log ar y benthyciadau hynny a'r taliadau ariannol eraill, fel didyniad i elw.

## Rhyddhad am gostau ariannol preswyl

Mae'r costau o gael benthyciad neu drefniant ariannol arall er mwyn prynu eiddo preswyl sy'n cael ei osod, ac unrhyw log ar y benthyciadau hynny a'r taliadau ariannol eraill, yn gallu cael eu defnyddio wrth gyfrifo gostyngiad mewn Treth Incwm ar gyfer buddiolwyr ystadau ymadawedig ac ymddiriedolaethau nad ydynt yn ddewisol neu ymddiriedolaethau cronni yn unig.

Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen TN 5 i gyfrifo'ch gostyngiad treth. Rhaid ystyried pob ymddiriedolaeth ar wahân, a rhaid ystyried pob busnes eiddo y mae'r ymddiriedolaeth yn ei gynnal ar wahân.

Dylech gynnwys eich cyfran chi o'r elw a chostau ariannol preswyl yn unig. Os yw busnes eiddo heb wneud unrhyw elw, neu wedi gwneud colled, rhowch sero yng ngholofn A. Os nad oedd ganddo gostau ariannol eiddo preswyl, rhowch sero yng ngholofn B. Cysylltwch â'r ymddiriedolwr neu'r cynrychiolydd personol os nad ydynt eisoes wedi rhoi'r ffigurau i chi i'w cynnwys yng ngholofnau A a B y daflen waith.

### Blwch 25.1  Costau ariannol preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen

Mae swm y costau ariannol preswyl heb eu defnyddio a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach yn destun cyfyngiadau.

Ar gyfer pob busnes eiddo:
- os byddech yn adio'r costau ariannol preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen at y costau ariannol preswyl (a dalwyd yn ystod y flwyddyn), ac os yw cyfanswm y dau swm hwn yn llai na swm yr elw o'r eiddo, dylech gynnwys swm llawn y costau ariannol preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen ym mlwch 25.1
- os byddech yn adio'r costau ariannol preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen at y costau ariannol preswyl (a dalwyd yn ystod y flwyddyn), ac os yw cyfanswm y dau swm hwn yn fwy na swm yr elw o'r eiddo, gallwch dim ond nodi swm y costau ariannol preswyl nas defnyddiwyd ym mlwch 25.1, a hynny ar yr amod bod y swm hwn, pe bai wedi'i adio at y costau ariannol preswyl a dalwyd yn ystod y flwyddyn, yn hafal i swm yr elw o'r eiddo

Gellir cario unrhyw falans o gostau ariannol preswyl sydd yn dal i fod heb ryddhad ymlaen i flynyddoedd i ddod  ar gyfer yr un busnes eiddo.

I gael rhagor o wybodaeth am y cyfyngiad ar gostau ariannol eiddo preswyl, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-tax-relief-for-residential-landlords-how-its-worked-out-including-case-studies

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael help gyda'ch Ffurflen Dreth.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

Defnyddiwch y daflen waith hon er mwyn cyfrifo'ch gostyngiad treth.

| **Taflen waith ar gyfer blwch 25** | **Colofn A** Cyfran o elw busnes eiddo £ | **Colofn B** Cyfran o gostau ariannol eiddo preswyl £ | **Colofn C** Yr isaf o golofn A a cholofn B £ | **Colofn D** Costau ariannol nas defnyddiwyd sydd i'w cario ymlaen (B llai C) £ |
|---|---|---|---|---|
| Enghraifft 1: Busnes eiddo ymddiriedolaeth A | 15,000 | 2,000 | 2,000 | 0 |
| Enghraifft 2: Busnes eiddo ymddiriedolaeth B | 3,000 | 4,000 | 3,000 | 1,000 |
| Busnes eiddo 1 | | | | |
| Busnes eiddo 2 | | | | |
| Busnes eiddo 3 | | | | |
| Busnes eiddo 4 | | | | |
| Busnes eiddo 5 | | | | |
| Busnes eiddo 6 | | | | |
| Busnes eiddo 7 | | | | |
| Busnes eiddo 8 | | | | |
| | | Cyfanswm colofn C - copïwch i flwch 25 | £ | |
| | | | Cyfanswm colofn D | £ |

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.